CYRBAU A PHLACIAU MUR GWENITHFAEN: GWYBODAETH BWYSIG

Nodwch: -

- Mae prisiau'r cyrbau a'r placiau ar gyfer cyfnod arddangos o ddeng mlynedd. Dangosir hyn ar y rhestr brisiau amgaeedig, ynghyd â phris adnewyddu neu ymestyn y cyfnod hwnnw.

- Mae'r cyfnod dangos yn dechrau tua thri mis ar ôl i'ch archeb ddod i law. Byddwch yn cael datganiad gyda'ch derbynneb yn nodi'r dyddiad ar gyfer adnewyddu.

- Gellir prynu blynyddoedd unigol ychwanegol ar unrhyw adeg.

- Ar ddiwedd y cyfnod a gytunwyd byddwn yn cysylltu â chi ac yn eich gwahodd i adnewyddu'r trefniant. Am y rheswm hwn mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu o unrhyw newid yn eich cyfeiriad. Neu efallai y byddwch am fynd â'r plac gyda chi.

- Bydd placiau na fydd yn cael eu hadnewyddu neu eu cymryd yn cael eu cadw am gyfnod o fis cyn eu gwaredu.